

PWY YDYM NI:

Dr Catherine MacLeod, Ysgol Gwyddorau Iechyd, Prifysgol Bangor

Dr Feifei Bu, Adran Gwyddoniaeth Ymddygiad ac Iechyd, Coleg Prifysgol Llundain

Yr Athro Alasdair Rutherford, Cymdeithaseg, Polisi Cymdeithasol a Throseddeg, Prifysgol Stirling

Yr Athro Judith Phillips, Dementia a Heneiddio, Prifysgol Stirling

Yr Athro Bob Woods, Ysgol Gwyddorau Iechyd, Prifysgol Bangor

FFYNHONNELL: Mae'r daflen hon yn seiliedig ar erthygl mewn cyfnodolyn, sydd ar gael ar-lein:

MacLeod, C.A., Bu, F., Rutherford, A.C., Phillips, J., Woods, R. (2021). Cognitive impairment negatively impacts allied health service uptake: Investigating the association between health and service use. *SSM – Population Health*, 13, 100720. <https://doi.org/10.1016/j.ssmph.2020.100720>

CYMERADWYAETH MOESEG: Cymeradwywyd yr astudiaeth hon gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil 5 Cymru (cyf REC: 10/WNo01/37).

DIOLCHIADAU: Hoffem ddiolch i'r cyfranogwyr a thîm prosiect CFAS Cymru.

ARIANNU: Ariannwyd y prosiect hwn gan Lywodraeth Cymru trwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru [grant SCF-16-1268]. Ariannwyd prosiect CFAS Cymru gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol [grant RES-060-25-0060] a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Ni chwaraeodd y noddwyr unrhyw ran wrth ddylunio, gweithredu, dadansoddi na dehongli data, nac ysgrifennu.

CYSWLLT: Dr Catherine MacLeod, Ysgol Gwyddorau Iechyd, Prifysgol Bangor, c.a.macleod@bangor.ac.uk, 01248 388030



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

Nam Gwybyddol a Defnydd Gwasanaethau Iechyd a Gofal



Gwnaethom gyfnewid 3593 o oedolion hŷn (dros 65 oed) yng Ngogledd a De Cymru. Gofynnwyd i bobl am eu hiechyd a'u ffordd o fyw ac aseswyd eu hiechyd corfforol ac emosiynol. Profwyd eu galluoedd gwybyddol, fel cof, meddwl a rhesymu.

Roedd gan chwarter y sampl nam gwybyddol. Roeddent yn dangos arwyddion o fod â dementia, neu cawsant ganlyniadau profion yn awgrymu bod ganddynt risg uchel o fynd ymlaen i ddatblygu dementia. Edrychwyd i weld sut roedd cael nam gwybyddol yn effeithio ar y defnydd o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Gwelsom fod pobl â nam gwybyddol yn fwy tebygol o ddefnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol, ond yn llai tebygol o gael prawf ar eu golwg neu ymweld â deintydd na'r rhai heb nam gwybyddol.


ASTUDIAETH:

- Gofynnwyd i bobl a oeddent wedi defnyddio gwasanaeth yn ystod yr wythnosau, misoedd, neu'r flwyddyn flaenorol - rhoddir yr amserlenni ar gyfer pob gwasanaeth mewn cromfachau ar y diagram isod.
- Rheolwyd y dadansoddiad ar gyfer ffactorau demograffig, cysylltiad cymdeithasol a'r amgylchedd, yn ogystal â dangosyddion iechyd eraill.

DANGOSYDDION IECHYD:

Iechyd hunan-raddedig
Swyddogaeth wybyddol
Gweithgareddau bywyd
bob dydd

GWASANAETHAU:



CANFYDDIADAU:

- Roedd yr ods o ddefnyddio gofal cymdeithasol yn cynyddu pe bai gan bobl nam gwybyddol.
- Nid oedd defnydd o feddygon teulu, nyrsio ac ysbytai yn wahanol rhwng y rhai â nam gwybyddol a'r rhai heb nam gwybyddol.
- Gostyngodd yr ods o ddefnyddio gwasanaethau iechyd cysylltiedig pe bai gan bobl nam gwybyddol.
- Yn benodol, gostyngodd nam gwybyddol ods gwiriadau golwg ac ymweld â'r deintydd yn sylweddol.
- Arhosodd anghydraddoldebau mewn golwg a gwiriadau deintyddol fel swyddogaeth nam gwybyddol ar ôl ffactoreiddio i mewn hygyrchedd gwasanaeth trwy'r mathau arferol o gludiant.

NEGESEUON ALLWEDDOL:

- Mae bwlch amlwg yn y nifer sy'n derbyn gwasanaethau golwg a deintyddol gan y rhai â nam gwybyddol.
- Mae gwiriadau iechyd arferol yn parhau i fod yn bwysig hyd yn oed os ydynt yn wynebu heriau iechyd eraill fel dementia.
- Gall gwiriadau iechyd helpu i gynnal iechyd a gallant ganfod problemau yn gynnar.
- Cydnabyddir yn eang y gall nodi salwch yn gynnar leihau'r angen am becynnau gofal dwys a chostus yn ddiweddarach. Gallai gwasanaethau meddygon teulu a nyrsio gyflawni hyn trwy dargedu pobl hŷn â nam gwybyddol, i atal neu leihau anawsterau diweddarach.
- Mae cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar wasanaethau gwirio ac atal iechyd yn allweddol i gynyddu cynaliadwyedd cyffredinol gwasanaethau iechyd a gofal.
- Gallai gweithredu llwybrau dementia gan wasanaethau hwyluso eu defnydd gan grwpiau bregus.